# Bwletin GwE

CYDWEITHIO
DYSGU
LLWYDDO

Rhannwch ein **BWLETIN** â thim staff eich ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n **RHESTR BOSTIO**.

## NEGES NADOLIG GAN GwE

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi gyd am eich gwaith aruthrol yn ystod y tymor hwn. Rhaid i mi eich llongyfarch ar sut yr ydych wedi mynd ati i sicrhau bod y disgyblion a'r myfyrwyr yn eich gofal yn cael yr addysg orau bosibl.

Rydym hefyd yn llwyr werthfawrogi'r cryn heriau sy'n parhau o'n blaenau yn enwedig i reoli effaith setliadau cyllidebol. Fel y gwyddoch, rydym wedi bod yn casglu eich barn trwy'r Ffederasiynau Penaethiaid o dan dri pennawd bras sef:

- Be sy'n gweithio'n dda ac yn werth eu cadw?
- Be sydd ddim yn gweithio cystal ac angen eu newid neu dorri?
- Oes yna bethau nad sydd ar gael ar hyn o bryd y dylai GwE fod yn ei wneud?

Mi fyddwn yn parhau â'r drafodaeth yma yn y flwyddyn newydd trwy drafod opsiynau posibl wrth i ni lunio cyfeiriad y gwasanaeth yn sgil cyfarch yr heriau cyllidol. Gallaf eich sicrhau y byddwn yn gwneud ein gorau glas i'ch cefnogi mewn unrhyw ffordd, ac rwy'n sicr y gallwn wynebu unrhyw heriau pellach drwy barhau i weithio gyda'n gilydd.

Pe byddech am drafod unrhyw beth dros y gwyliau, yna gallwch gysylltu gydag Euros Davies neu Elfyn V Jones.

Gobeithio y cewch Nadolig dedwydd, gorffwysol a diogel, a chyfle i dreulio amser gwerthfawr gyda'ch teuluoedd, eich cyfeillion a'ch anwyliaid.

Dymuniadau gorau am Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.

Arwyn H Thomas

Arwyn Thomas
**Rheolwr Gyfarwyddwr GwE**

# CYNADLEDDAU


## Cynhadledd Dibenion Adborth

**23/02/2024** **Kinmel Manor, Abergele**



**Michael Chiles, Awdur *The Feedback Pendulum***

Rydym wedi gwahodd Michael Chiles i Ogledd Cymru - dirprwy bennaeth, addysgwr [3-16 oed] ac awdur *The Feedback Pendulum*.



Bydd Michael yn annerch Cynhadledd ar Ddibenion Adborth i arweinwyr Addysgeg ysgolion [pob sector].

Dyma gyfle gwych i chi gael ysbrydoliaeth yn ystod y dydd drwy wrando ar y brif araith a chael cyfle i edrych ar beth yw dibenion adborth, cynllunio ar gyfer adborth ochr yn ochr ag addysgeg a chynnydd a defnyddio'r adnoddau gorau ar gyfer y deilliant sydd dan sylw.

Manylion llawn ar gael yma.

YSGOLION MÔN A GWYNEDD | YSGOLION CONWY A SIR DDINBYCH | YSGOLION SIR Y FFLINT A WRECSAM

## Lansio Adnoddau ASD gyda Mike Gershon

**CEFNOGI DYSGWYR AWTISTIG MEWN DOSBARTHIADAU PRIF LIF CYNRADD AC UWCHRADD**

Bydd yr ymgynghorydd addysgol rhyngwladol, Mike Gershon, yn ymuno â ni mewn tri lleoliad gwahanol ar draws y rhanbarth ym mis Ionawr, i lansio cyfres newydd arloesol o adnoddau i helpu athrawon dosbarth prif lif i ddeall awtistiaeth yn well a'r hyn y gallant hwy a'u hysgol ei wneud i gefnogi dysgwyr awtistig yn y ffordd orau yn eu dosbarthiadau. Mae'r adnoddau wedi'u cynllunio i gefnogi athrawon dosbarth cynradd ac uwchradd prif lif sy'n addysgu un neu fwy o ddysgwyr awtistig o fewn darpariaeth gyffredinol.

Cliciwch yma am ragor o fanylion.

**16/01/2024 | 9:15-13:15** **Galeri, Caernarfon** COFRESTRWCH

**17/01/2024 | 9:15-13:15** **Venue Cymru** COFRESTRWCH

**18/01/2024 | 9:15-13:15** **Prifysgol Wrecsam** COFRESTRWCH



## Gweithdy Mathemateg ar gyfer athrawon Cynradd ac Uwchradd

Bydd Craig Barton yn dychwelyd i Ogledd Cymru i arwain gweithdy mathemateg ar strategaethau dysgu ac addysgu effeithiol i ymarferwyr cynradd ac uwchradd.

Bydd y gweithdy yn edrych ar:

- strategaethau ymarferol i adnabod, blaenoriaethu ac asesu gwybodaeth flaenorol berthnasol ar gyfer cysyniad newydd; a sut i ymateb i'r asesiadau hyn
- esbonio a modelu syniadau newydd i'n dysgwyr
- technegau i fodelu'n effeithiol
- defnyddio egwyddorion atomeiddiad, amrywiad a chyfarwyddyd uniongyrchol i roi'r cyfle gorau posibl i'n myfyrwyr ddeall syniadau allweddol.

**Mae lleoedd yn gyfyngedig, a byddant yn cael eu rhoi ar sail y cyntaf i gofrestru.**

01/02/2024 8:45-15:30 Venue Cymru, Llandudno COFRESTRU

# CYNNIG PROFFESIYNOL GwE

Yr ydym yn falch iawn o gyflwyno ein **Cynnig Dysgu Proffesiynol** i chi ar gyfer y flwyddyn addysgol 2023-24. Yma cewch wybodaeth am yr holl ddysgu proffesiynol sydd ar gael i arweinwyr ac ymarferwyr ysgolion.

Cadwch olwg ar dudalen Cynnig Proffesiynol GwE ar ein gwefan. Mae'n cael ei ddiweddaru yn rheolaidd i gynnwys yr holl ddigwyddiadau newydd a gynigir gan GwE.

## CYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL RHANBARTHOL ANG: TYMOR 2 A 3 [2024]

Gweler isod cynnig dysgu proffesiynol rhanbarth GwE ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso.
**Mae'r manylion llawn ar gael ar wefan GwE**. Cliciwch ar y dolenni isod er mwyn cofrestru.

| | HYFFORDDIANT | DYDDIAD | LLEOLIAD | CYFRWNG |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Challenging Behaviour** | 17/01/2024 | Gwesty St David's, Ewloe | Saesneg |
| 2 | **NQT Primary Literacy** | 23/01/2024 | Oriel Hotel, St Asaph | Saesneg |
| 3 | **NQT Primary Numeracy** | 24/01/2024 | Business Centre, Conwy | Saesneg |
| 4 | **Llythrennedd Cynradd ANG** | 25/01/2024 | Galeri, Caernarfon | Cymraeg |
| 5 | **Rhifedd Cynradd ANG** | 26/01/2024 | Venue, Llandudno | Cymraeg |
| 6 | **Ymddygiad Heriol** | 22/02/2024 | Plas Menai, Caernarfon | Cymraeg |
| 7 | **Well Being NQT** | 23/02/2024 | Oriel Hotel, St Asaph | Saesneg |
| 8 | **Cymhwysedd Digidol** | 21/03/2024 | Plas Menai | Cymraeg |
| 9 | **Digital Competence** | 22/03/2024 | Oriel Hotel, St Asaph | Saesneg |
| 10 | **Asesu Ffurfiannol** | 16/04/2024 | Plas Menai | Cymraeg |
| 11 | **Formative Assessment** | 17/04/2024 | Oriel Hotel, St Asaph | Saesneg |





# PROSIECTAU YMCHWIL A GWERTHUSO

## Gwella ein dealltwriaeth o waith ymarferol mewn gwyddoniaeth Gynradd

Mae ymchwilwyr ym Mhrifysgol Bath Spa a Phrifysgol Manceinion yn chwilio am athrawon yng Nghymru i helpu i wella ein dealltwriaeth o waith ymarferol mewn gwyddoniaeth gynradd mewn ysgolion. Mae'r tîm ymchwil yn cynnal arolwg o ysgolion ledled y DU er mwyn gwneud argymhellion y gellir eu cymhwyso ar draws pob gwlad. Rydym yn croesawu'r holl randdeiliaid gwyddoniaeth cynradd i ymateb i'r arolwg, gan gynnwys athrawon presennol, uwch arweinwyr, arweinwyr datblygiad proffesiynol, sefydliadau STEM ac addysgwyr addysg gychwynnol i athrawon ym mhob un o wledydd y DU. Bydd yr arolwg yn gofyn am eich barn a'ch profiadau ynglŷn â gwaith ymarferol mewn gwyddoniaeth gynradd ac mae dolen yr holiadur ar gael yma:

**Gwaith ymarferol mewn gwyddoniaeth gynradd**

## Cyhoeddi gwaith ymchwil newydd gydag ysgolion GwE
## Defnydd ysgolion prif lif ac arbennig o raglenni lles: Arolwg rhanbarthol

Mae'n bleser gan GwE weld bod canlyniadau un o'n prosiectau ymchwil ar y cyd wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar yn y *British Educational Research Journal [BERJ]*. Gwnaethpwyd y gwaith hwn gydag ymchwilwyr o Brifysgol Warwick fel rhan o waith GwE ar y cyd â'n partneriaid prifysgol er mwyn ein helpu i ddefnyddio canfyddiadau ymchwil i lywio polisi ac arfer. **Darllenwch fwy...**

## Allwch chi helpu i wella'r sail dystiolaeth yng nghyd-destun dysgu sillafu?

**Rydym ni'n chwilio am arweinwyr llythrennedd mewn ysgolion cynradd i gwblhau ein holiadur i'n helpu ni i wella'r ddarpariaeth ar gyfer sillafu yn y Gymraeg a'r Saesneg.**

Os ydych chi'n arweinydd llythrennedd neu'n gyfrifol am ddarpariaeth sillafu mewn ysgol gynradd, a fyddech cystal â'n helpu ni i gael darlun manwl gywir o'r ddarpariaeth bresennol trwy gwblhau ein holiadur. Gallwch ddilyn y **ddolen hon**.

# NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg: Cynradd 8-11

***CARFAN NEWYDD***

Bwriad y **rhaglen** yw rhannu syniadau ymarferol ar sut i ddatblygu cyfleoedd dysgu cyfoethog a gwerthfawr o fewn y maes dysgu gan edrych ar sut y gallwn wreiddio'r sgiliau trawsgwricwlaidd er mwyn ehangu'r dysgu.

Mae hwn yn rhaglen datblygiad proffesiynol a gynhelir dros 3 diwrnod. **Bydd rhaid i chi fynychu'r 3 diwrnod**.

**DIWRNOD 1:** 29/02/2024 **DIWRNOD 2:** 19/04/2024 **DIWRNOD 3:** 24/05/2024 **COFRESTRU**

## Canolbwyntio ar y Tri Diben Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru

**CYNULLEIDFA: PENAETHIAID, UWCH ARWEINWYR, ARWEINWYR CANOL AC ATHRAWON**

Cyflwyniadau a chyfle i drafod y tri diben asesu.

- Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd
- Adnabod, dal a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser
- Deall cynnydd grŵp er mwyn myfyrio ar arfer

Ar ddiwedd y dydd, bydd cyfle i chi ofyn cwestiynau sydd yn berthnasol i'ch lleoliad chi.
Darperir te a choffi yn ystod y dydd. **Ni ddarperir cinio.**

23/01/2024 | 9:15-15:15 Swyddfa GwE, Penrallt, Caernarfon **COFRESTRU**

## Gweithdai Addysgu UG

Bydd Mr Chris Parry, Ysgol Friars yn arwain rhaglen DPP ar gyfer athrawon UG ac/neu ddarpar athrawon UG/Safon Uwch i ddatblygu ymhellach eu hyder a'u haddysgeg wrth addysgu Mathemateg Safon Uwch. Y bwriad yw cynnig sesiynau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn gyfochrog – yn dibynnu ar y niferoedd sy'n cofrestru. Nodwch gyfrwng eich sesiwn ddewisol ar y ffurflen gofrestru. Cliciwch yma i gofrestru – nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael. Dyddiad cau ar gyfer cofrestru yw 20/12/2023.

| | LLEOLIAD | DYDDIAD | AMSER |
|---|---|---|---|
| Diwrnod 1 [Uned 1] | Ysgol Friars | 16/01/2024 | 9:30-14:30 |
| Diwrnod 2 [Uned 2: Ystadegaeth] | Ysgol Friars | 24/01/2024 | 9:30-14:30 |
| Diwrnod 3 [Uned 2: Mecaneg] | Ysgol Friars | 08/02/2024 | 9:30-14:30 |

## Cwrs Uwch Gwneud Llun a Siarad

Mae'r Hyfforddiant Uwch 'Gwneud Llun a Siarad' yn benodol ar gyfer aelodau sydd eisoes wedi cwblhau ein hyfforddiant Sylfaen undydd. Yn yr ail gwrs hwn, bydd yr aelodau yn dod i ddeall yn well y broses therapiwtig sydd ynghlwm â 'Gwneud Llun a Siarad', a'r theori tu cefn i'r dechneg. Byddwn yn edrych yn fanylach ar *Ddamcaniaeth Jung* er mwyn gweld y defnydd o archdeipiau a'r patrymau sydd i'w gweld mewn lluniau gan blant, ac yn dysgu hefyd am ddatblygiad a symudiad ar hyd yr echelin Ego-Hunan.

21/02/2024 | 9:00-15:30 Digwyddiad Ar-lein dros Zoom RHAGOR O FANYLION

**Cysylltwch â CatherineMcNamara@gwegogledd.cymru am fwy o wybodaeth**

## Gweithdai Dyniaethau i Athrawon a Chymorthyddion sy'n Addysgu'r Oedran 3 i 8 oed

**DATBLYGU DEALLTWRIAETH DDYFNACH O FAES DYSGU A PHROFIAD 'Y DYNIAETHAU'**

Rhannu syniadau ar sut i:

- Gynllunio a darparu cyfleoedd i ddysgwyr ymchwilio ac archwilio y byd o'u cwmpas drwy ddisgyblaethau MDaPh 'Y Dyniaethau'.
- Cynllunio profiadau datblygiadol er mwyn sicrhau dilyniant a chynnydd mewn sgiliau ar draws y continwwm o 3 i 8 oed.
- Bydd hyfforddiant i athrawon ar draws 2 sesiwn a bydd disgwyl iddynt fynychu'r 2 weithdy.

Cliciwch ar y botymau isod am ragor o fanylion ac i gofrestru:

GWEITHDAI AR GYFER CYMORTHYDDION | GWEITHDAI AR GYFER ATHRAWON

## Cyfarfod Dewisol / Galw Heibio i Gydlynwyr BAC Uwch

15/12/2023 | 9:30-10:00 DOLEN I'R CYFARFOD

Nod: Rhannu gwybodaeth/syniadau D+A Prosiect Cymuned Byd-eang Uwch [dim angen ymuno os wnaethoch fynychu cyfarfod 11/12/2023]

## Cwricwlwm i Gymru: O'r Dylunio i'r Adrodd, ac yn ôl eto [Ysgolion Uwchradd]

Bwriad y gweithdy hwn yw cefnogi uwch arweinwyr ysgolion uwchradd i fyfyrio ar agweddau ar ddylunio, cynllunio, addysgu a deialog broffesiynol ac asesu.

Anelir y gweithdy at arweinwyr ysgolion uwchradd sydd â chyfrifoldeb am agwedd ar y cwricwlwm newydd fel: dylunio, cynllunio ar gyfer cynnydd, galluogi deialog broffesiynol i gefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o gynnydd, asesu ac adrodd i rieni. Bydd y gweithdy yn un rhyngweithiol a llawn gwybodaeth.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17/01/2024 | 9:00-12:30 | Bwyty White House, Rhuallt | CYFRWNG SAESNEG |
| 18/01/2023 | 9:00-12:30 | Venue Cymru, Llandudno | CYFRWNG CYMRAEG |

# Y GYMRAEG

## Dyddiadau i'r Calendr:

**Ydych chi eisiau gwybod mwy am sut gall 'Ein Llais Ni' eich cefnogi i ddatblygu llafaredd Cymraeg yn eich ysgol? [cynradd ac uwchradd]**

Gweithdy yn cyflwyno rhaglen Ein Llais Ni i ysgolion sydd heb fynychu'r gynhadledd a rhwydweithiau yn 2023. Byddwn yn dangos sut mae'r gwaith wedi esblygu ac yn esbonio'r gefnogaeth a'r wefan gysylltiedig sydd ar gael i'w defnyddio am ddim.

Dewis o 8 lleoliad ar draws y rhanbarth yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2024.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **24/01/2024** | **Wrecsam:** | **13:00-14:30** | **Sir y Fflint:** | **15:30-17:00** |
| **05/02/2024** | **Ynys Môn:** | **13:00-14:30** | **Gogledd Gwynedd:** | **15:30-17:00** |
| **21/02/2024** | **Sir Ddinbych:** | **13:00-14:30** | **Conwy** | **15:30-17:00** |
| **26/02/2024** | **De Gwynedd:** | **13:00-14:30** | **Gorllewin Gwynedd:** | **15:30-17:00** |

## Partneriaeth newydd gyda Gwobr Dug Caeredin – Adnodd Dysgu Cymraeg

Mae Gwobr Dug Caeredin [DofE] a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi cyhoeddi fod adnodd Dysgu Cymraeg wedi'i ychwanegu at adran sgiliau'r Wobr. Y Ganolfan sydd wedi datblygu'r adnodd, sy'n cyflwyno geiriau, ymadroddion a phatrymau iaith, gan ddilyn themâu fel cerddoriaeth a diwylliant Cymru. Mae'r datblygiad yn rhan o ddarpariaeth y Ganolfan ar gyfer pobl 16-25 oed. Mae'r garfan yma'n gallu dilyn cwrs Dysgu Cymraeg am ddim, gyda chyrsiau ac adnoddau penodol ar gael. Mae cyfleoedd i ddysgu'r iaith yn y gweithle ac mewn prifysgolion a cholegau hefyd.




## Cynllunio Strategol ar gyfer yr Iaith Gymraeg: Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth

Ydych chi'n bennaeth neu'n arweinydd mewn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg sy'n awyddus i gryfhau eich dealltwriaeth o bwysigrwydd y Gymraeg yn eich ysgol?

Mae'r cwrs yn cael ei gynnig yn rhad ac am ddim yn draws-ranbarthol, 24 Ionawr 2024.

**Mae'r sesiwn bore yn llawn - mae posib cofrestru ar gyfer sesiwn ychwanegol yn y prynhawn. Cliciwch yma.**

## Ydych chi Eisiau Cryfhau eich Cymraeg? [*Gloywi Iaith*]

**Pa lefel ydych chi ei hangen?** Pa lefel ydw i?

**Beth sydd ar gael?** Dewis eang, yn cynnwys cyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer y gweithlu addysg. Dulliau gwahanol o ddysgu, yn cynnwys hunan-astudio a chyfle i ddysgu yn y gymuned. **Cymraeg Gweithlu Addysg | Dysgu Cymraeg**

**Angen mwy o wybodaeth? Cysylltwch â'r awdurdod lleol neu GwE**.

## Cyrsiau Sabothol Iaith Gymraeg

**CWRS UWCH AR GYFER CYMORTHYDDION [EBRILL-GORFFENNAF 2024]**

Ydych chi'n siaradwr eithaf rhugl [Iaith Gyntaf ac Ail Iaith]? Angen mwy o wybodaeth? Cliciwch yma.

# DYFODOL BYD-EANG: IEITHOEDD RHYNGWLADOL

## Datblygu Addysgeg a Methodoleg Dysgu ac Addysgu ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol gyda Jennifer Wozniak-Rush

**CYNRADD AC UWCHRADD - BYDD Y SESIWN YN SAESNEG**

26/01/2024 | 9:00-15:30 — Canolfan Fusnes Conwy — **COFRESTRWCH erbyn 22/12/2023**

Diwrnod ymarferol ac ysgogol i helpu i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd mewn IRh, a sut gall hyn edrych yn ymarferol ar ffurf tasgau a chyd-destunau ystyrlon a dysgu dwfn yn y sectorau cynradd ac uwchradd.

## Digwyddiad Pencampwyr Iaith Fusnes Blwyddyn 10

06/02/2024 | 9:00-15:30 — Ysgol Aberconwy — **COFRESTRWCH erbyn 15/12/2023**

Bydd y tîm **Pencampwyr Iaith Fusnes** yn herio ac yn arwain dysgwyr i gynllunio, dylunio a chreu eu syniad am fusnes. Ar y diwrnod, bydd dysgwyr yn mynd ati i edrych ar eu hiaith ryngwladol a'i defnyddio mewn cyd-destun ymarferol a phwrpasol. Gall ysgolion gystadlu efo hyd at dri tîm o chwech [Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg].

# IECHYD A LLES

## Trawma ar gyfer Uwch Arweinwyr

**CWRS 2 DDIWRNOD**

Bwriad y cwrs yw cefnogi Uwch Arweinwyr i weithredu arferion 'gwybodus am drawma' ac 'iach yn feddyliol' yn eu hysgol. Sicrheir bod gan Arweinwyr yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth i droi'r dull gweithredu yn bolisi ac yn arfer er mwyn ysgogi newid hanfodol a gwella llesiant oedolion a disgyblion yn eu hysgol.

Mi fydd y cwrs yn cael ei gynnal dros ddau ddiwrnod yn y lleoliadau isod:

| | | |
|---|---|---|
| **11/01/2024 a 12/01/2024 \| 9:00-15:30** | Linden House, Yr Wyddgrug | **COFRESTRU** |
| **15/01/2024 a 16/01/2024 \| 9:00-15:30** | Plas Menai, Caernarfon | **COFRESTRU** |

## Diploma mewn Ysgolion a Chymunedau sy'n Wybodus am Drawma

**STATWS YMARFERYDD [GwE 16 - Ar-lein]**

Cwrs sgiliau ymarferol, yn seiliedig ar dystiolaeth o astudiaethau ymchwil.

Y nod yw rhoi gwybodaeth a phŵer i staff er mwyn iddynt allu ymateb yn effeithiol i blant/pobl ifanc bregus sydd wedi cael trawma ac/neu broblemau iechyd meddwl drwy gyflwyno ymyraethau sy'n rhoi sylw i broblemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol, gyda'r pwyslais ar wella. **Cliciwch yma am ragor o fanylion**. **Dyma'r ddolen i gofrestru**.

## Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr a Holiadur Amgylchedd yr Ysgol [SHRN]

**Dim ond ychydig dros wythnos sy'n weddill** erbyn hyn cyn bod Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr a Holiadur Amgylchedd yr Ysgol [SHRN] yn cau i ysgolion sy'n cymryd rhan ynddynt, ar **22 Rhagfyr 2023**.

Hefyd, gofynnir i bob ysgol sy'n cymryd rhan gwblhau cyfanswm niferoedd eu grwpiau blwyddyn a chyflwyno unrhyw wybodaeth am rieni sydd wedi tynnu myfyrwyr yn ôl o'r arolwg ar Ddangosfwrdd y Rhwydwaith ar gyfer yr Ysgol erbyn diwedd yr wythnos - 15 Rhagfyr 2023. Bydd hyn yn osgoi effaith ar sut bydd yr ysgol yn derbyn ei data o'r Rhwydwaith.

Meddai Maria Boffey, Rheolwr Cyfnewid Gwybodaeth y Rhwydwaith: '*Mae'n hanfodol ein bod yn clywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc am eu lles. Rydym wrth ein bodd bod dros 98% o ysgolion uwchradd yng Nghymru wedi ymrwymo i gymryd rhan yn arolwg 2023. Mae'r arolwg yn adnodd unigryw a hyblyg i Gymru. Mae ganddo ran hanfodol i'w chwarae wrth lywio polisïau sy'n effeithio ar fywyd dysgwyr ysgol uwchradd yng Nghymru ac edrychwn ymlaen at glywed beth mae pobl ifanc yn ei ddweud wrthym*'.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymchwil, cysylltwch â thîm y Rhwydwaith: **shrn@cardiff.ac.uk**

## Platfform Citbag [Chwaraeon Cymru]

Mae Chwaraeon Cymru yn gyffrous iawn am roi gwybod i chi am rai newidiadau arwyddocaol maent wedi'u gwneud i'w platfform **Citbag**.
**Cliciwch yma i ddarganfod mwy**.

## Cynnig Proffesiynol Iechyd a Lles GwE

**Cliciwch ar y dyddiadau isod er mwyn cadw eich lle ar y cwrs [dolen i Eventbrite]**

### YN SEILIEDIG AR EGWYDDORION 'CHWARAE I DDYSGU' [OEDRAN 3-8]

| LLEOLIAD | DYDDIAD | AMSER |
|---|---|---|
| *Venue in the Park*, Parc Gwledig Alyn Waters | GOHIRIWYD | |
| Canolfan yr Iaith Gymraeg, Llanelwy | **12/01/2024** | 8:45-15:15 |
| Swyddfeydd GwE, Yr Wyddgrug | **19/01/2024** | 8:45-15:15 |

### GWEITHDY IECHYD A LLES [8-11]

| LLEOLIAD | DYDDIAD | AMSER |
|---|---|---|
| Y Galeri, Caernarfon | **20/02/2024** | 8:45-15:15 |
| Holiday Inn, A55 Chester West | **29/02/2024** | 8:45-15:15 |
| Optic | **14/03/2024** | 8:45-15:15 |

## NEWYDDION CONSORTIA ADDYSG CYMRU

WWW

[Cliciwch yma](#) i gael eich cyfeirio i wefan Consortia Addysg Cymru sydd yn darparu gwybodaeth am ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol traws-ranbarthol sydd ar gael i holl staff Cymru.

### Cynnig 'Man Myfyriol' i bob Gweithiwr Proffesiynol mewn Addysg

Mae ar bob un ohonom angen ychydig o gymorth llesiant o bryd i'w gilydd, cyfle i stopio, dadlwytho, myfyrio ac adolygu. [Cliciwch yma](#) i gael rhagor o wybodaeth a chofrestru ar gyfer cynnig cymorth hyfforddiant myfyriol y Consortiwm.

### Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwywyr Addysgu newydd

Mae'r Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwywyr Addysgu [ar ei newydd wedd] ar gyfer unigolion sydd yn newydd i'w swydd. Mae'r rhaglen genedlaethol hon yn cynnwys 2 fodiwl, ac yn cael ei chyflwyno drwy rhestrau chwarae. Mae modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwyydd ac i'w lleoliad.
Dilynwch y [ddolen hon](#) i gael rhagor o fanylion. [Cliciwch yma i gofrestru](#).

### Mark Burns: *'Teaching to maximise learning'*

Mark Burns: *'Teaching to maximise learning'*, yw'r cyntaf mewn cyfres o bodlediadau gan Dîm Cyflawni Potensial y Consortiwm. I gael rhagor o fanylion ac i fynd at y podlediad, cliciwch ar y [ddolen hon](#).

## NEWYDDION LLYWODRAETH CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

### Ymgynghoriad: Strwythur y Flwyddyn Ysgol

**SUT GALLWN NI WNEUD Y FLWYDDYN YSGOL YN FWY CYTBWYS AR GYFER Y GWEITHLU ADDYSG, DYSGWYR, A'U TEULUOEDD?**

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried gwneud newidiadau i'r flwyddyn ysgol yng Nghymru er mwyn rhoi gwell cefnogaeth i'r gweithlu addysg, dysgwyr, a'u teuluoedd, ac maent eisiau gwybod beth yw eich barn am eu cynlluniau.

Gall y newidiadau olygu gwyliau o bythefnos yn yr Hydref, i wella lles staff a rhoi cyfle i bawb adfywio, gwyliau pum wythnos dros yr Haf i ganiatáu am wyliau Hydref hirach a lleihau colli'r hyn a ddysgwyd yn ystod yr Haf, a gwyliau yng nghanol tymor y Gwanwyn yn hytrach nag yr un adeg â'r Pasg fel y gall dysgwyr ac athrawon gael tymor mwy cytbwys.

Bydd cyfanswm yr amser a dreulir yn yr ysgol yn parhau yn 190 niwrnod a bydd y nifer o wyliau ysgol yn parhau yn 13 wythnos.

Bydd unrhyw newidiadau yn dechrau o fis Medi 2025 ar y cynharaf, sy'n golygu gall fod pythefnos o wyliau yn yr Hydref am y tro cyntaf yn 2025 a gall fod pum wythnos o wyliau dros yr Haf am y tro cyntaf yn 2026.

Rhannwch eich sylwadau trwy ymweld â [llyw.cymru/flwyddynysgol](#)
Gallwch hefyd ebostio [ExploringUseOfSchoolTime@gov.wales](#)

**Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 12/02/2024**

### Y Criw Mentrus: Annog Menter

**GWEITHDY DYSGU PROFFESIYNOL CYSYLLTIEDIG Â'R CWRICWLWM**

[Darllenwch fwy yma.](#)



## Cwricwlwm i Gymru: Digwyddiad Cyfres Tegwch a Chynwysoldeb

Estynnir gwahoddiad i chi ymuno mewn digwyddiad yng nghyfres Tegwch a Chynwysoldeb Cwricwlwm i Gymru. Bydd y diwrnod yn rhoi cyfle i glywed gan y blynyddoedd cynnar, y cynradd, yr uwchradd, uned cyfeirio disgyblion [UCD] ac ymarferwyr addysg arbennig. Manylion llawn a chofrestru ar gael yma.

# GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

## Prosiect CAMAU

**PRIFYSGOL CYMRU Y DRINDOD DEWI SANT A PHRIFYSGOL GLASGOW**

Mae'r prosiect Camau i'r Dyfodol yn fenter gydweithredol rhwng Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Glasgow. Mae'r prosiect yn cefnogi gweithwyr addysg proffesiynol i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd dysgu ar y cyd ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.

Mae tîm y prosiect yn chwilio am ymarferwyr i ymuno â cham 3 sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r cwricwlwm.

**Cliciwch yma am y manylion llawn. Dolen ar gyfer cais: https://forms.office.com/e/dn1KvrENg8**

## Cylchlythyr Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cylchlythyr Addysg, Dysgu ac Iechyd mis Rhagfyr, Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei gyhoeddi.
**Cliciwch yma i'w ddarllen.**

## *BookTrust Cymru*: Adnoddau digidol ar gyfer teuluoedd sydd â phlant yn yr ysgol gynradd

Helpwch deuluoedd i ddewis llyfrau Cymraeg a Saesneg ar gyfer eu plant, a gwneud darllen a rhannu llyfrau yn rhan o fywyd teulu!

- Canllaw Llyfrau Gwych Cymru
- Fideo ar gyfer teuluoedd
- Gwybodaeth ac ymchwil
- Cysylltiadau at adnoddau ehangach

**Cliciwch yma**

BookTrust Cymru
Ysgogi plant i ddarllen
Getting children reading



## Dysgu'r Dyfodol 2024: Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae cynllun Dysgu'r Dyfodol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sydd â'r nod o gynyddu'r niferoedd sy'n ymuno â'r gweithlu addysg Gymraeg, yn rhedeg eto eleni – ac maen nhw nawr yn recriwtio mentoriaid i weithio ar y cynllun.

Mae Dysgu'r Dyfodol yn gynllun sy'n cynnig sesiynau mentora a phrofiad gwaith i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig sy'n siarad Cymraeg, mewn unrhyw faes, ac sydd â diddordeb gwybod mwy am yrfa fel athro ysgol.

Mae'r Coleg Cymraeg yn chwilio am athrawon gyrfa gynnar sy'n siarad Cymraeg ac yn gweithio yng Nghymru, ac sydd wedi cwblhau'r Cyfnod Sefydlu, i fod yn fentoriaid.

Dyma'r manteision o safbwynt yr athrawon gyrfa gynnar:

- dangos datblygiad yn erbyn y Safonau Proffesiynol i athrawon
- datblygu sgiliau arweinyddiaeth
- ennill hyd at £180 [£30 yr awr am 6 awr o waith: dwyawr o hyfforddiant arlein, tair awr o fentora arlein, ac awr o waith trefnu]

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Byddai'r Coleg Cymraeg yn gwerthfawrogi unrhyw gymorth i dynnu sylw athrawon cymwys yn eich ysgol chi at y cynllun.

Dolen i'r ffurflen ymgeisio: Ffurflen ymgeisio 2024 | Dolen i'r wefan gyda mwy o wybodaeth: Dysgu'r Dyfodol

## Cyfleoedd i ysgolion gymryd rhan yn arlwy rhaglen Dysgu Creadigol Cymru

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru yn falch o lansio cyfleoedd pellach i ysgolion GwE gymryd rhan yn eu rhaglenni dysgu creadigol a chelfyddydol. Gweler isod manylion am yr holl grantiau byw presennol a sut i ymgeisio:

- **Ysgolion Creadigol Arweiniol [Dyddiad cau: 11 Ionawr 2024]**
- Ewch i Weld [grant parhaus]

